CYNGOR TREF LLANBEDR P.S.

COFNODION CYFARFOD MISOL
NOS IAU 27ain O FEDI 2007 AM 7.30PM
NEUADD Y DREF LLANBEDR P.S.

1. CROESO'R CADEIRYDD

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd, Y Maer Christopher Thomas.

YN BRESENNOL

Cyng. Maer Christopher Thomas (**Cadeirydd**)

Cyng: Dirprwy-Faer Selwyn Walters, Cecilia Barton, Andrew Carter, Elsie Dafis John Davies, Margaret Davies-Evans, Greg Evans, Robert (Hag) Harris, Robert Phillips, Dorothy Williams a Derek Wilson.

Mr Dave Smith: Dirprwy-gadeirydd y Siambr Fasnach Llanbedr PS - i gyfleu gwybodaeth yn ymwneud â'r cynllun *Cittaslow*, yn dilyn ei ymweliad â'r Wyddgrug ar y 22ain o Fedi. Ymadawodd ar ôl trafod yr item ar yr agenda, sef 6.1.

2. YMDDIHEURIADAU A MATERION PERSONOL

Y Cyng. Hazel Davies, Lynda Mason-George, Kistiah Ramaya a'r Blismones Jo Grey. **Roedd aelodau'n flin i glywed** am anhwylder y Cyng**.** Hazel Davies a'i bod yn yr ysbyty. Cytunwyd i ddymuno adferiad buan iddi o'i chystudd.

3. DATGELU BUDDIANT PERSONOL

Ni ddatgelwyd unrhyw fuddiant personol.

4. CADARNHAU COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR YR 30ain O AWST 2007

Penderfynwyd: cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar yr 30ain o Awst. Fe'u harwyddwyd gan y cadeirydd.

5. MATERION YN YMWNEUD Â'R HEDDLU

Dywedodd y Maer iddo sgwrsio â'r Arolygydd Heddlu (AH) Mark James yn ddiweddar ynghylch y materion canlynol:

5.1 **Ardal Gwahardd Alcohol i Lambed:-** bu ymateb gwan i'r ymgynghoriad. Cytunwyd i anfon ail lythyr yn cefnogi'r *Gwaharddiad Alcohol* at yr heddlu. Anogir sylwadau pobl ar y *Gwaharddiad Alcohol* ar strydoedd y dref. Dylid eu hanfon at yr AH Mark James.

5.2 **Roedd 3 blwch postyn yn, a chyfagos** i Lanbedr PS, wedi eu difrodi gan ddyfeisiadau llosgi. Gwnaed apêl am dystion gan yr heddlu.

5.3 **Cafodd cyfrifiaduron eu lladrata** o Brifysgol Llanbedr PS.

6. MATERION SY'N CODI O'R COFNODION BLAENOROL

6.1 ***Cittaslow***

Cafwyd gwybodaeth pellach yn ymwneud â'r cynllun *Cittaslow* gan unigolion a fu'n ymweld â'r Wyddgrug ar y 22ain o Fedi. Penderfynwyd sefydlu gweithgor i drafod y mater ymhellach ac i gynnwys aelodau etholedig, aelodau'r Siambr Fasnach, cynrychiolydd o Brifysgol Llanbedr P.S, cynrychiolwyr cynghorau sir Ceredigion a Chaerfyrddin a Kate Stewart.

6.2 **Datblygiadau parthed y fainc:** bydd map yn cael ei anfon at y cyngor sir yn dangos lleoliad arfaethedig y fainc, er mwyn darganfod perchennog y darn yma o dir.

6.3 **Pryd ar Glud (PaG): newidiadau arfaethedig ar gyfer dosbarthu'r prydau** derbyniwyd ail lythyr o wrthwynebiad i'r newidiadau arfaethedig oddi wrth Elisabeth James Gwnâi apêl am gefnogaeth y cyngor tref mewn perthynas â'r mater. Penderfynwyd anfon y llythyr at sylw CSC ac i egluro i Mrs James fod cytundeb wedi ei gyrraedd gan y cyngor sir. Byddai prydau bwyd wedi eu rhewi yn cael eu cludo i'r defnyddwyr aseswyd yn abl i fanteisio ar y system newydd. Fodd bynnag byddai prydau poeth yn cael eu cludo i dderbynwyr anfodlon neu'n anabl i ymdopi â'r prydau wedi rhewi.

Hefyd, roedd cyngor y dref wedi derbyn dogfennau eraill oddi wrth y Cyngor sir parthed y newidiadau arfaethedig PaG sef copi o'r Adroddiad dan yr enw, *User Based Evaluation of Meals at Home Trial in the County of Ceredigion,* a wnaed gan Mr. Gari Lewis ar ran Gwasanaethau Cymdeithasol Ceredigion, a copi o'r adroddiad yn ymwneud â'r PaG a gyflwynwyd i gabinet y cyngor sir ar y 4ydd o Fedi. Nodwyd y dogfennau, er gwybodaeth.

6.4 **Hyfforddiant Archwilio Llefydd Chwarae CSC:** penderfynwyd enwebu'r Maer C.Thomas i fynychu'r cwrs yma ar gyfer y 21ain a 22ain o Dachwedd ym Mhenmorfa, Aberaeron.

6.5 **Cynllun Ail-gylchu yn y bag - derbyn gwydr fel defnydd ailgylchadwy CSC:** mae trefniadau gwahanol ar gyfer casglu gwydr yn cael eu datblygu gan y cyngor sir. Pan fydd y trefniadau yma mewn lle, bydd taflenni'n hysbysu'r cyhoedd am y newidiadau'n cael eu dosbarthu.

6.6 **Cynllun Iaith Gymraeg Cyngor Tref Llambed-cyflwyno'r cynllun i Fwrdd yr Iaith Gymraeg :** mae trefniadau ar y gweill i gyflwyno'r adroddiad i Fwrdd yr Iaith Gymraeg erbyn y 9fed o Hydref; ac fel canlyniad dylai dderbyn statws statudol.

6.7 **Llyfryn Tref Llambed:** ymateb oddi wrth Grŵp Gweithredu Llambed yn dweud eu bod yn cytuno â'r egwyddor y dylai'r maer ysgrifennu'r dudalen agoriadol y llyfryn.

6.8 **Arwydd "Marchnad Anifeiliaid":** mae'r arwydd wedi ei waredu gan y CSC.

6.9 **Astudiaeth Datblygu Economaidd ac Adfywio ar gyfer Llanbedr P.S Cwmni Hyder.** Cynhaliwyd gyfarfodydd agored ar y 20/21/22 o Fedi. Comisiynwyd Hyder gan y Cynulliad i gasglu barn preswylwyr wrth iddo ymroi i greu adroddiad ar sut i ddatblygu Llambed a'r cyffuniau. Caiff y canlyniadau a'r cynllun gweithredu eu cyhoeddi fis nesaf. Cytunwyd y dylai'r maer, dirprwy-faer a'r clerc lenwi'r holiadur.

6.10 **Pantomeim Jac a'r Goeden Ffa** – Bu'r Cyng. L Mason-George yn ymchwilio'n bellach i'r posibilrwydd i'r dref fod yn westai i'w pantomeim y Nadolig hwn. Ar ôl trafod, cytunwyd i bedio â bwrw ymlaen â'r trefniadau. Roedd aelodau o'r farn y byddai perfformiad dwy-ieithog yn fwy addas gogyfer y dref. Cytunwyd i gysylltu â Theatr Felinfach i ofyn tybed fyddai'n bosibl i gynnal eu pantomeim yn y dref.

6.13 **Partneriaeth Pobl Ifainc-** bydd cyfarfod yn cymryd lle ar y 5ed o Hydref.

7. **GOHEBIAETH**

Cofnod 37/2007

7.1 **Dataganiad o Bolisi Trwyddedu ar gyfer Ceredigion CSC: Adolygu'r Polisi Trwyddedu ar gyfer ymghynghori cyhoeddus:** dosbarthwyd i aelodau.

7.2 **Ffair Llambed Mis Tachwedd: llythyr oddi wrth y cyngor sir yn gofyn tybed yw'r cyngor tref o blaid parhâd y ffair mis Tachwedd ar faes-parcio'r *Rookery:*** cytunwyd i fod y cyngor tref yn gefnogol i'r ffair arferol ar faes-parcio'r *Rookery* ym mis Tachwedd a gwerthfawrogir petai'r hawl yma'n parhau i fodoli am eleni.

7.3 **Hybu Gweithgareddau Cerdigion Tŷ Glyn Aeron 10/10/2007:** nodwyd er gwybodaeth

7.4 **Gweledigaeth Leol Paratoi Strategaethau Cymunedol Drafft** Ymgynghori: Llywodraeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru LL.C.C. canllawiau statudol oddi wrth Lywodraeth Cynulliad Cymru ar ddatblygu a chyflwyno strategaethau cymunedol. Penderfynwyd peidio ag ymateb i ymgynghoriad y Cynulliad.

8. MENTER LLAMBED
Cofnod 38/2007

8.1 Derbyn yr adroddiad misol oddi wrth y Cyng. Greg Evans

8.1.1 Cynllun Cadw'n Heini Llanbedr PS: mae'r gwaith yn cael ei gario allan ar hyn o bryd ym Mharc-yr-Orsedd. Cytunwud i brynu Blociau Craig o'r gweddill arian y cymhorthdal. Bydd y maer yn agor y safle'n swyddogol ar ôl i'r gwaith orffen.

8.1.2 Cynhaliwyd y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol yn ddiweddar ac ail-benodwyd y 3 cynghorwr preswyl yn ôl i'r Bwrdd. Mae'r Cyng. Greg Evans yn parhau'n ei swydd fel cadeirydd.

8.1.3 Neuadd y Dref: mae ymgynghorwr wedi cael ei benodi i neuadd y dref. Bydd ef yn edrych ar gynllun busnes y prosiect, yn ymgymryd ag astudiaeth dichonoldeb ac yn ymchwilio i botential ffynhonnau ariannu.

8.1.4 Pamffledi Twristiaeth: yn barod i'w dosbarthu

8.1.5 Safle Rhedeg; Rhoddir ystyriaeth i Lambed, yn ogystal ag Aberystwyth ac Aberteifi fel darpar leoedd i gynnal safle rhedeg 400metr. Nid oes traciau athletwyr cyngor sir yng Ngheredigion ar hyn o bryd, ond mae *Gwasanaethau Hamdden* y cyngor wrthi'n dewis rhwng y tri lleoliad.

8.1.6 Pwyllgor Tref Drawsnewidiol:

8.2.5.1 **Mae Llambed wedi llwyddo'n ei gam cyntaf i ddyfod yn Nhref Drawsnewidiol Gyntaf Cymru.** Mae'r prosiect wedi ennill cefnogaeth *Partneriaeth Cymunedau Cryfach* mewn canlyniad i'w cais ariannol.

8.2.5.2 **Cynhaliwyd y cyfarfod agored** yn gynharach yn y dydd yn Neuadd Fictoria Llambed. Mae'r grŵp yn cynllunio "Disgyniad Ynni" mewn ymateb i amcangyfrifon y bydd hanner cronfa'r olew'r byd wedi ei ddefnyddio mewn 5 mlynedd.

9. CEISIADAU CYNLLUNIO
Cofnod 39/2007

Adroddwyd fod y ceisiadau cynllunio canlynol wed eu caniatau gan y Cyngor Sir:

Rhif y Cais	Ymgeisydd:	Lleoliad:	Manylion y cais:
A070483	Mr C Saunders LAS Gwastraff Cyf Heol Tregaron LLANBEDR PS	LAS Gwastraff Cyf Heol Tregaron LLANBEDR PS	Defnyddio'r safle a chodi adeilad at ddefnydd B1, B2 B8 (Busnes, diwydiant, storio a dosbarthu) cyffredinol
A050779	Mr D C Evans Tanygraig Silian LLANBEDR PS	Rhif 11,12,13 & 14 Cwrt Dulas Stryd y Felin LLANBED PS	Codi dau bar o anheddau par
A060461	Mr D C Evans (fel uchod)	Rhif 17-22 Cwrt Dulas	Codi 6 tŷ (tai fforddiadwy)
A060836LB	Ymmddiriedolwyr Capel Soar	Capel Soar LLANBEDR PS	Gosod fentiau newydd

10. CYLLID
Cofnod 40/2007
10.1

	Gwein.	Cynnal .	Ad137	TAW
GWARIANT	£	£	£	£
Cyflog y Clerc 1 mis	360.26			
Treth a YC	94.30			
Golau/Gwres/Storio	20.00			
Dawns "Haf" Ffynnonbedr			387.71	
Argraffu Prifysgol Llanber PS	11.20			
Bws i'r Wyddgrug(Cittaslow) rhan/dal.	87.50			
Bill Ffôn & Band Eang	94.51			16.54
CCTV 1 mis		1,632.10		285.83
Torri Gwair: Mr E.Williams		510.00		
CYFANSWM	667.77	2,142.10	387.71	302.37
CYFANSWM Y GWARIANT	**£3,499.95**			

10.2 Penderfynwyd i beidio â chyfrannu tuag at yr elusen *Y Groes Goch Prydeinig*, ar hyn o bryd.

10.3 Derbyniwyd llythyron o ddiolch am gyfraniadau oddi wrth yr elusennau *Mari Curie Gofal mewn cancr* a *Chymorth i Ddioddefwyr Dyfed.*

10.4 Cytunwyd y dylai £87.50 o'r gost o £200 ar gyfer y bws mini'r Wyddgrug, gyda'r bwriad i ddarganfod gwybodaeth pellach yn ymwneud â'r cynllun *Cittaslow* gael ei dalu o gronfa'r Cyngor Tref. Mae'r £112.50 gweddill wedi ei dalu'n barod gan y 9 person a deithiodd i'r Wyddgrug.

11. IS-BWYLLGORAU
Cofnod 41/2007

11.1 LLWYBRAU CERDDED

Cynllun Llwybrau Cymunedol 2007-08 CSC: Mae anfoneb o £990 a dderbyniwyd oddi wrth Mr E. Williams wedi ei hanfon at y cyngor sir. Dylai'r cymhorthdal ysgwyddo 75% o'r gost sef £742.50 ond bydd yn ofynnol i 25% or gost sef £247.50 gael ei ariannu o goffrau'r cyngor tref. Caiff y gwaith ei arolygu gan y cyngor sir cyn rhyddhau'r cymhorthdal. Dalier i ddisgwyl anfoneb oddi wrth Glwb Cerdded Llambed.

Parc-yr-Orsedd: Penderfynwyd i ofyn am 2 amcanbris i wella cyflwr y ffens.

11.2 GOLEUADAU STRYD

Eglurodd y Cyng. D.Williams fod y golau stryd a leolid y tu allan i Groesadwi, Heol Bryn yn dal yn ddiffygiol. Penderfynwyd i atgoffa'r cyngor sir.

11.3 PALMANTAU

11.3.1 Mae'r garreg palmant o flaen *Bryndolau*, Stryd Newydd yn rhydd ac o bosib yn berygl i'r preswyliwr oedrannus ac anabl sy'n byw yma.

11.3.2 Mae problemau'n bodoli ar y palmantau sy'n arwain o siop Spar i Stryd y Farchnad.

11.3.3 Mae'r problemau a nodwyd yn yr *Adroddiad Namau Palmantau* a luniwyd gan y Cyng. R.Phillips ac Elsie Dafis yng Ngorffennaf, heb dderbyn sylw, cyn belled, gan CSC.

Penderfynwyd i hysbysu'r cyngor sir.

11.4 CAMERAU TELEDU CYLCH-CYFYNG (CTCC)

Derbyniwyd ymateb ysgrifenedig i'r gwahoddiad, i gyfarfod y noson hon gan Mr Mark Elliot CSC. Clywodd aelodau fod 2 gamera teledu cylch-cyfyng yn dal i fod yn ddiffygiol a mae'r gostyngiad hir-ddisgwyledig yn y taliad blynyddol heb ei gyflawni. Dywedodd Mr Elliott fod gwasanaeth CTCC dda'n cael ei gynnig gan y 4 camera arall. Gobeithir cyflogi contractwr cyn bo hir i ddileu y ffaeleddau hyn ac i gwblhau digitaleiddio'r system camerau cylch cyfyng Ceredigion. Hyn i alluogi cario'r delweddau o gamerau Llanbedr PS ar rwydwaith telathrebu'r Cyngor er mwyn lleihau'r costau.

12. U.F.A.

Cofnod 42/2007

12.1 **Cae Chwarae yr ysgol gynradd blaenorol ar Heol y Bryn:** cytunwyd i gysylltu â'r cyngor sir i ofyn tybed fyddai'n bosibl i'r cyngor tref weinyddu'r cae.

12.2 **Gwneir apêl am faeau parcio ar gyfer bysiau,** ger Pontfaen, Llanbedr PS.

12.3 **Cytunwyd i gysylltu â "Shopmobility"** i fynegi siom y cyngor tref ar ddileu y gwasanaeth yn Llambed.

12.4 **Adroddwyd nad oedd cloc Neuadd y Dref yn taro** nac yn goleuo.

12.5 **Nid yw'r ffynnon ar Sgwâr Harford** yn dal dŵr ar hyn o bryd.

12.6 **Nid oes palmantau'n bodoli ger yr ysgol gynradd newydd. Fe roir ar** ddeall i'r cyngor sir fod y cyngor tref yn cefnogi unrhyw fesurau diogelwch sy'n ymwneud â'r safle hon.

12.7 **Arllwysodd lori'n cludo perferddion/cigach ei chynnwys**, yn ddamweiniol, y tu allan i'r ATS yn Llanbedr PS. Mae'r broblem wedi ei datrys gan y cyngor sir a'r heddlu.

12.8 **Darganfuwyd gwydr wedi ei chwalu** ger yr adeilad y *Ganolfan-Gwaith* ers talwm.

12.9 **Ail-adroddwyd fod y sefyllfa traffig yng nghyffuniau'r Lôn Picton** "yn arwydd o ddamwain i ddigwydd."

12.10 **Diolchwyd y Cyng. D.Williams am** drefnu'r Ddawns "Haf", yr ysgol gynradd newydd, ar yr 22^{ain} o Fedi

Death y cyfarfod i ben am 9:30pm.

13. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Nos lau 26ain o Hydref am 7:30pm, yn Neuadd y Dref

_____-Cadeirydd (Dyddiad)